

Math o Adroddiad	Cofnodion		
Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn/Arloesi Môn		
Lle Venue	Ar-lein (Zoom)		
Dyddiad Date	21/5/20	Amser Time	13.00 pm

Yn bresennol:

Cynrychiolwyr y Sector Preifat:		
Nigel Peacock	Contractwr Hunangyflogedig	NP
Mari Faulkner	Contractwr Hunangyflogedig	MF
Dylan Evans	Contractwr Hunangyflogedig	DE
Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol / Cymunedol		
Peter Davies OBE	Mentrau Cymdeithasol Llangedfni	PD
Edna Jones	Ffermwyr Ifanc Môn	EJ
Sian Purcell	Medrwn Môn	SP
Neville Evans	Iorwerth Arms Bryngwran	NE
Bryn Jones	Gwirfoddol	BJ
Robin Grove White	Caffi Mechell, Llanfechell	RGW
Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus		
Martin Jardine	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)	MJ
Dewi Lloyd	Cyngor Sir Ynys Môn	DL
Staff Menter Môn		
Jackie Lewis	Menter Môn (cofnodion)	JL
Meilir Pritchard	Menter Môn	MP
Sioned Morgan Thomas	Menter Môn	SMT
Dafydd Gruffydd	Menter Môn (MD)	DG
Hefyd yn bresennol		



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



Pwynt	Manylion	Pwynt Gweithredu
1	<p><u>Croeso</u></p> <p>Croesawodd MJ bawb i'r cyfarfod a diolchodd i PD am gadeirio'r cyfarfod diwethaf yn ei absenoldeb.</p>	
2	<p><u>Ymddiheuriadau</u></p> <p>Alwyn Williams Mark Gahan Adrian Roberts Molly Lovatt Dewi Jones Heidi Williams</p>	
3	<p><u>Datgan Buddiant</u></p> <p>Cafwyd datganiadau o fuddiant gan:</p> <p>Nigel Peacock - contractwr caffael Olwyn Môn Martin Jardine - Canolfan Technoleg Bwyd sy'n gysylltiedig â phrosiect Neges Sian Purcell - Medrwn Môn yn gysylltiedig â'r ymateb partneriaeth i COVID-19</p>	
4	<p><u>Cofnodion y cyfarfod diwethaf – 13-2-20</u></p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf:</p> <p>Cynnig – Neville Evans Eilio – Nigel Peacock</p>	
5	<p><u>Materion yn Codi</u></p> <p><u>Aelodaeth LAG</u></p> <p>Hysbysodd SMT y Cadeirydd fod yr aelodaeth y LAG yn cael ei adolygu ac y byddai diweddariad ar gael yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>Eitem ar agenda'r cyfarfod LAG nesaf</p>



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p><u>Lôn Las Cefni</u></p> <p>Dywedodd DG fod tyndra gwleidyddol rhwng Grŵp Lôn Las Cefni, Lein Amlwch a'u cefnogwyr yn achos pryder. Hefyd mae problemau sylweddol gyda Network Rail a dyma'r rheswm am yr oedi cyn cyflwyno cais i'r LAG ar gyfer gwaith ymchwil i sut y gellid defnyddio'r lein ar gyfer trenau, cerddwyr a seiclwyr.</p> <p>Mae'r sefyllfa bresennol oherwydd COVID-19 hefyd wedi cyfrannu at yr oedi. Bydd diweddariadau pellach yn y LAG nesaf.</p>	<p>Eitem ar Agenda cyfarfod nesaf y LAG</p>
6	<p><u>Trosolwg Ariannol ac Amserlenni</u></p> <p>Dywedodd SMT fod 253k ar gael ar hyn o bryd i'w wario o fewn LEADER heb gynnwys y cronfeydd sy'n weddill yn y cronfeydd Cymunedau Creadigol ac Ymchwil 5k.</p> <p>Dywedodd SMT hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd angen 15k arall ar gyfer gwerthusiad ychwanegol o ganlyniad i COVID-19 ac os caiff y gwariant hwn ei gymeradwyo ynghyd â phrosiect NEGES (25K) – byddai'r hyn sy'n weddill i'w wario erbyn diwedd Rhagfyr 2022 yn 213K • Bydd adolygiad prosiectau yn y cyfarfod nesaf o'r prosiectau a gymeradwywyd eisoes, ac a ddylid eu gohirio ynteu eu haddasu mewn ymateb i COVID-19 <p>Gofynnodd PD sut y gwneid penderfyniad ar hyn – awgrymodd MJ y gellid defnyddio system Goleuadau Traffig – cytunwyd fod angen ymchwilio ymhellach i'r mater.</p> <p>Atgoffwyd y LAG hefyd fod cronfeydd Cymunedau Creadigol ac Ymchwil yn dal ar agor ac y byddai trafodaeth bellach ar sut y gellid eu defnyddio.</p> <p>Gofynnodd MJ a ellid defnyddio cod lliw gwell ar gyfer yr Allbynnau yn y tabl</p>	<p>Eitem ar Agenda cyfarfod nesaf y LAG</p> <p>Eitem ar Agenda cyfarfod nesaf y LAG</p> <p>SMT to action</p>



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p><u>Diweddariad i'r Ymateb i COVID-19</u></p> <p>Dywedodd SMT fod Menter Môn, Medrwn Môn a Chyngor Ynys Môn wedi ffurfio partneriaeth i ymateb yn effeithiol i'r anghenion a amlygwyd gan COVID-19:</p> <p><u>CIANDO</u></p> <p>Yn gweithio i ddarparu llety i weithwyr allweddol yn agos at eu gweithle. Ar hyn o bryd mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 144 o ddarparwyr llety cofrestredig (63 ym Môn) • 45 o weithwyr wedi manteisio ar y cynllun <p>Fodd bynnag, mae angen mwy o lety sydd o fewn 5 munud i Ysbyty Gwynedd.</p> <p><u>Gwirfoddolwyr Cymunedol</u></p> <p>Ei nod yw ad-dalu gwirfoddolwyr cymunedol am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • PPE • Tanwydd • Costau ffôn • Unrhyw eitemau hanfodol eraill sydd eu hangen arnynt i gydlynu gwirfoddolwyr a helpu eraill <p>Dywedodd SP fod mwy na 850 o wirfoddolwyr cymunedol ac y bydd Medrwn Môn yn chwilio am ffyrdd o gynnal y momentwm ar ôl COVID-19 a bod yr ymchwil ddiweddaraf yn galonogol.</p> <p>Dywedodd RGW fod hyn yn bwysig oherwydd y cynnydd presennol ac argaeledd gwirfoddolwyr sydd ar ffyrlo; ar ôl ffyrlo bydd y niferoedd yn gostwng. Dywedodd hefyd fod yr argyfwng wedi amlygu angen yn ei ardal na oedd yn amlwg inni cyn hyn.</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p><u>Cronfa argyfwng Covid-19</u></p> <p><u>Llwybryddion Band Eang</u></p> <p>Mae Menter Môn wedi cael 8 llwybrydd am ddim ac sydd ar gael i ganolfannau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau hanfodol yn ystod y cyfnod hwn neu ar gyfer gweithwyr allweddol na allant weithredu'n iawn oherwydd cysylltiad band eang gwael.</p> <p><u>Agri Bank</u></p> <p>Mae'r cynllun hwn yn awyddus i gofrestru gwirfoddolwyr sydd â sgiliau amaethyddol ac a fyddai ar gael i helpu ffermwyr i gadw'r busnes i fynd pe baent yn cael eu taro'n wael neu'n gorfod hunanynysu.</p>	
7	<p><u>Cymeradwyo Prosiectau</u></p> <p><u>NEGES</u></p> <p>Cyflwynodd DG fenter NEGES a dywedodd fod Cam 1 wedi'i ariannu gan y prosiect Larder Môn ac ar hyn o bryd roedd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cael ei reoli a'i ariannu gan Fenter Môn • Gweithio mewn partneriaeth â Dylan's, Madryn Foods ac eraill yng Ngwynedd • Darparu bocsys o gynnyrch lleol i bobl mewn angen sydd wedi'u hatgyfeirio gan Awdurdodau Lleol ym Môn a Gwynedd <p>Mae'r cais a gyflwynwyd ar gyfer Cam 2 yn gobeithio darparu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Costau teithio staff sy'n gweithio'n wirfoddol • Costau tanwydd • Argraffu labeli • Llungopïo 	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<ul style="list-style-type: none"> • Costau cyfleustodau • Prynu bocsys • Prynu PPE • Pacio parseli ar ôl Gorffennaf 2020 <p>Cadarnhaodd DG fod cyfraniadau o 95K gan asiantaethau / cyrff dyrannu grantiau eraill ar gyfer bwyd a'r cais am gymorth LAG oedd 25K ar gyfer eitemau heblaw bwyd.</p> <p>Yn achos y ddarpariaeth Banciau Bwyd presennol mae tua 50 o focsyst yn cael eu dosbarthu bob wythnos ond roedd 250 yn cael eu dosbarthu drwy NEGES.</p> <p>Gofynnodd PD pwy oedd y prif fuddiolwyr – dywedodd DG nad oedd hwn yn fater y gallai MM wneud penderfyniad arno, ond bu cynnydd mewn digartrefedd yn ystod y misoedd diwethaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dywedodd DG hefyd efallai na fyddai angen y cyllid i gyd • Cadarnhaodd MJ hefyd na fyddai ffi i'r Ganolfan Technoleg Bwyd am y cymorth roedd yn ei ddarparu • Pwysleisiodd PD y byddai angen gwneud gwaith ymchwil i ddod o hyd i fodel cynaliadwy ar gyfer y dyfodol <p><u>CYMERADWYFYD Y CAIS – 25K YN CYNNWYS TAW</u></p>	
8	<p><u>Papur Trafod</u></p> <p>Cyflwynodd SMT bapur trafod ar y tri maes blaenoriaeth arfaethedig i ddatblygu prosiectau yn y dyfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Menter • Lleoedd • Cydnerthedd gwledig <p>Roedd gan bob maes blaenoriaeth ddatganiadau her i'w dilyn ac roedd aelodau'n cael eu hannog i ychwanegu datganiadau newydd yn y dyfodol.</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p>Bydd y pwyslais ar gyfer cam nesaf ac olaf LEADER ar siarad, ymchwilio'n briodol i brosiectau, canfod bylchau a chael elfen o gynaliadwyedd mewn prosiectau.</p> <p>Bydd aelodau LAG yn cael eu hannog i ymwneud mwy â datblygiad prosiectau a rhannu gwybodaeth.</p> <p>Awgrymodd NP y dylai cydnerthedd ariannol gael ei gynnwys. Cytunodd ND a dywedodd DE fod digonedd o wybodaeth ar gael; fodd bynnag, nid oedd yn cyrraedd y bobl sydd ei hangen.</p> <p>Dywedodd MJ ei fod wedi ymchwilio i ymyriadau COVID-19 a bod llawer ohonynt; felly roedd yn bwysig iawn peidio dyblygu ac roedd angen ymchwilio'n drylwyr.</p> <p>Cymeradwyodd pob aelod y pwyslais newydd ar gyfer 2 flynedd olaf LEADER.</p>	
9	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u></p> <p><u>Diweddariad Prosiectau - Olwyn Môn</u></p> <p>Cafodd y grŵp ei ddiweddarau gan NP ar gynnydd astudiaeth Olwyn Môn a oedd yn edrych ar ddatblygu llwybr seiclo arfordirol ar gyfer yr Ynys.</p> <p>Eglurodd NP ei fod ar hyn o bryd yn edrych ar lwybrau â chodau lliw ac roedd wedi rhannu'r ynys yn 4 ardal ddaearyddol, a oedd hefyd yn cynnwys Ynys Gybi; fodd bynnag, roedd yn teimlo y byddai'n braf cael llwybr ar wahân ar gyfer yr ardal honno.</p> <p>Bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mehefin, a byddai NP yn croesawu unrhyw sylwadau gan y LAG cyn cyflwyno fersiwn derfynol</p> <p><u>Sylwadau Olaf</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Longyfarchwyd Menter Môn gan MJ am yr holl waith da oedd wedi'i wneud mewn ymateb i COVID-19 	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<ul style="list-style-type: none"> • Nododd SP pa mor dda oedd y berthynas waith rhwng Menter Môn a Medrwn Môn • Roedd NE yn edrych ymlaen at weithio ar brosiectau cymunedol newydd <p>Daeth y cyfarfod i ben am 2.20pm</p>	
10	<p><u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u></p> <p>I'w gadarnhau</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*

